# PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD Y CYNGOR YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH 12 MEDI 2023 AM 5.30PM**

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd
Y Cynghorydd B. Miles - Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E.M. Aldworth, C. Bishop, M. Chacon-Dawson, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, C. Gordon, T. Heron, A. Leonard, J. Roberts, J. Simmonds a J Winslade.

Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet:

Y Cynghorydd C. Andrews (Addysg a Chymunedau), E. Forehead (Gofal Cymdeithasol), S. Morgan (Arweinydd) a J. Pritchard (Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd).

Ynghyd â:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), A. West (Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Pennaeth Gwasanaethau i Blant), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), C. Howells (Cydlynydd Prosiect), P. O'Neil (Uwch Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid), M. Jacques (Swyddog Craffu) a J. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn mynychu:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg) a Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr).

Hefyd yn mynychu:

Mrs P. Ireland (Undeb Addysg Cenedlaethol).

**TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld.

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Broughton-Pettit, A. Farina-Childs, S. Skivens, K. Woodland a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

2. **DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

3. **YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

4. **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynodd Mark Jacques (Swyddog Craffu) yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei Flaenraglen Waith a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2023 a mis Ebrill 2024.

Fe wnaeth y Pwyllgor Craffu gais i'r Eitem Wybodaeth ynghylch Adroddiad Monitro Cyllideb 2023/24 (Mis 3) gael ei hychwanegu at y Flaenraglen Waith ar gyfer y brif agenda ar 17 Hydref 2023, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo.

Dywedodd un Aelod y dylai rhai Eitemau Gwybodaeth gael eu rhestru ar y prif agendâu a'u trafod yn gyhoeddus. Amlygodd y Swyddog Craffu ei bod yn bosibl i'r Pwyllgor wneud cais i Adroddiadau Gwybodaeth a ddynodwyd gael eu trefnu i'w trafod ar agendâu cyfarfodydd yn lle hynny. Fel arall, gallan nhw e-bostio unrhyw gwestiynau yn uniongyrchol at yr awdur.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Trwy gyfrwng pleidleisio electronig (ac wrth nodi bod 43 o blaid, 13 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

> Yn amodol ar gynnwys yr eitem uchod, PENDERFYNWYD cyhoeddi'r Flaenraglen Waith fel y'i hatodwyd i bapurau'r cyfarfod ar wefan y Cyngor.

5. **ADRODDIADAU'R CABINET**

Cadarnhawyd na fu unrhyw geisiadau i unrhyw un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda gael eu dwyn ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

6. **COD TREFNIADAETH YSGOLION 2018 - CYNNIG AR GYFER CAU YSGOL FABANOD CWM GLAS**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i'r argymhelliad i'r Cabinet fynd ymlaen i gynnal ymgynghoriad mewn perthynas â chau Ysgol Fabanod Cwm Glas erbyn mis Gorffennaf 2024.

Nodwyd oherwydd y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Fabanod Cwm Glas, a fydd yn

ôl y disgwyl yn gostwng ymhellach yn y blynyddoedd i ddod, trefnwyd cyfarfod gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, er mwyn trafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol. Cytunwyd yn y cyfarfod hwn na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol. Felly, gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu'r Ysgol i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

Ar ben hynny, nododd yr Aelodau fod Ysgol Fabanod Cwm Glas ar hyn o bryd yn rhannu dalgylch gydag Ysgol Gynradd Coed-y-Brain, lle mae disgyblion yn trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 yn amodol ar ddewis y rhieni. Cynigir trosglwyddo'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, er mwyn cyflwyno darpariaeth ysgol gynradd bob oed cynhwysol. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd hyn yn arwain at y cynllun arfaethedig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan Aelodau, dywedodd y Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wrth yr Aelodau na allan nhw gadarnhau pam fod 50% o'r plant sy'n mynychu Ysgol Fabanod Cwm Glas yn dod o'r tu allan i'r dalgylch, gan nad oes rhaid i'r rhieni/gwarcheidwaid ddarparu'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer derbyn. Amlygodd y Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy hefyd y disgyblion hynny y tu allan i'r dalgylch sy'n dal i fyw o fewn 2-3 milltir i'r ysgol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y byddai disgyblion y tu allan i'r dalgylch yn rhan o'r trosglwyddo arfaethedig i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Ar ben hynny, dywedodd y Swyddog fod digon o ddarpariaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion yng Nghoed-y-Brain ond bod hyn yn amodol ar ddewis y rhieni. Dyma'r un broses â'r un sydd ar waith ar hyn o bryd, sy'n gweld disgyblion yn pontio i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yng Nghyfnod Allweddol 2.

Sicrhawyd yr Aelodau hefyd y byddai ymgynghoriad llawn â chorff llywodraethu Coed-y-Brain pe bai caniatâd yn cael ei roi i symud ymlaen i'r cam ymgynghori.

Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod Ysgol Fabanod Cwm Glas wedi cael adroddiad ESTYN llwyddiannus iawn, heb unrhyw gamau dilynol. Yn yr adroddiad, cafodd yr ysgol ganmoliaeth am y cymorth a'r arweiniad a roddir i'r disgyblion.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Drwy Microsoft Forms a gydag un bleidlais ar lafar (ac wrth nodi bod 16 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet fynd ymlaen i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

## 7. DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD O RAN GWEITHREDU I LEIHAU POBL IFANC NAD YDYN NHW MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT A MATERION PRESENNOL O BWYS

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau yr adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cynnydd o ran canlyniadau strategaeth Caerffili ar gyfer pobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 2021/22 (cyhoeddwyd Ebrill 2023) yng nghyd-destun yr amserlen darged 5 mlynedd gyfredol.

Cydnabu'r Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol y gwelliannau gweithredol a gyfrannodd at leihau nifer y bobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Nodwyd bod perfformiad pobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar y trywydd cywir yn ôl y targedau a ragamcanwyd ar gyfer y cyfnod pum mlynedd presennol ac mae canlyniadau 2021/22 wedi cyrraedd y targed a nodwyd.

Roedd y Pwyllgor Craffu yn falch o nodi bod gwasanaethau eraill yn cyfuno'n dda i nodi'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn bobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac mae Caerffili ymhlith y tri awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru yn hyn o beth.

Ar ben hynny, nodwyd bod bellach angen adolygu a diwygio camau gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i leihau pobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn cyflawni uchelgais a thargedau cysylltiedig yr awdurdod orau ar gyfer y flwyddyn/blynyddoedd i ddod.

Dywedodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion wrth y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr Awdurdod, dros y 12 mis diwethaf, wedi edrych ar ailosod y blaenoriaethau drwy'r Strategaeth Addysg, a bod pobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn un o'r prif flaenoriaethau hynny.

Mae wedi edrych ar ffyrdd o wella cymorth ac ychwanegu cymorth ychwanegol i'r plant a'r bobl ifanc sydd mewn perygl o adael yr ysgol heb addysg, cyflogaeth na hyfforddiant addas.

Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu dywedodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid wrth yr Aelodau y gall cadw cysylltiad â'r bobl ifanc fod yn un o'r problemau mwyaf weithiau. Mae hyn oherwydd bod rhifau ffôn disgyblion yn newid yn aml, gan gynnwys dros y cyfnod gwyliau ysgol 6 wythnos ac ni ellir datrys sefyllfaoedd rhai pobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant oherwydd naill ai beichiogrwydd neu garchar’.

Fe wnaeth yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid gyfeirio Aelodau’r Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol at wefan Llwybrau Caerffili sydd wedi’i dylunio i fod yn un pwynt cyswllt, lle gellir dod o hyd i wybodaeth am addysg bellach a phartneriaethau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn falch o nodi bod cyllid wedi'i sicrhau i gyflogi tîm o staff, sef y Tîm Ysbrydoli. Mae’r tîm wedi gweithio gyda charfan o ddisgyblion a nodwyd i adennill eu ffocws ar bresenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad drwy gynnig cymorth pwrpasol un i un neu mewn grŵp bach. O fis Medi 2023, bydd gan y tîm hwn swyddog cymorth penodedig ym mhob ysgol uwchradd. Yn ystod gwyliau haf ysgolion yn 2023, cefnogodd Swyddogion Ysbrydoli ymadawyr Blwyddyn 11 i sicrhau lleoliadau priodol mewn cyflogaeth neu hyfforddiant.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar y math o waith mae'r Tîm Ysbrydoli wedi'i wneud. Dywedodd y Cydlynydd Prosiect ar gyfer y tîm wrth y Pwyllgor Craffu fod y tîm yn gweithio gyda charfan o ddisgyblion mae'r ysgolion wedi'u nodi fel disgyblion maen nhw'n teimlo sy'n gallu cyflawni yn rhagor gyda chymorth y Tîm Ysbrydoli. Bydd gan bob unigolyn anghenion gwahanol; felly, bydd y tîm yn nodi'r anghenion unigol i greu gwell llwybr tra'u bod nhw yn yr ysgol. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud mewn perthynas ag anghenion iechyd meddwl, ynghyd â materion osgoi ysgolion. Ers COVID-19, bu cynnydd enfawr mewn

achosion o osgoi ysgolion, felly, mae'r Swyddogion yn defnyddio hyfforddiant Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiwn i gefnogi'r unigolyn.

O ran materion iechyd meddwl, clywodd yr Aelodau sut y gall Swyddogion gynnig cymorth ac atgyfeirio at asiantaethau eraill. Gan weithio o fewn y Tîm Gwella Ysgolion, mae'r Swyddogion yn gweithio gyda Seicolegwyr Addysg, a hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg ac Ysgolion Iach.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan un Aelod, dywedodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion wrth y Pwyllgor Craffu, o'r 360 o ddisgyblion y bu'r tîm yn gweithio gyda nhw, roedd tua 340 ohonynt wedi sicrhau lleoliadau, ond y dyddiad cau yw 31 Hydref 2023. Felly, mae'n obeithiol y bydd y nifer hwn yn gwella.

Yn dilyn trafodaeth, rhoddodd y Pwyllgor Craffu ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad.

Cofnododd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol eu llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion ar eu canlyniadau TGAU, ynghyd â llongyfarchiadau i holl staff ysgolion ar eu hadroddiadau ESTYN hynod lwyddiannus.

Terfynwyd y cyfarfod am 6.10pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau a gytunir a'u cofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 17 Hydref 2023.

____________________

CADEIRYDD